

**STRATEGAETH GENEDLAETHOL AR GYFER
DATBLYGU'R PROFFESIWN CYFIEITHU
CYMRAEG/SAESNEG**

Strategaeth Genedlaethol ar Gyfer Datblygu'r Proffesiwn Cyfieithu Cymraeg/Saesneg

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD



Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| 1. CYFLWYNIAD | 5 |
| 1.1 Diben | 5 |
| 1.2 Cefndir ac amcanion..... | 5 |
| 1.3 Y cyd-destun ehangach..... | 5 |
| 1.4 Cyfieithu a gweithio'n ddwyieithog..... | 6 |
| 1.5 Gwireddu'r strategaeth | 6 |
| 2. CEFNDIR | 7 |
| 2.1 Cefndir hanesyddol..... | 7 |
| 2.2 Cyflwr presennol y proffesiwn cyfieithu..... | 8 |
| 2.2.1 Yr angen am safonau proffesiynol..... | 8 |
| 2.2.2 Cyfraniad Cymdeithas Cyfieithwyr..... | 9 |
| 2.2.3 Yr angen am hyfforddiant proffesiynol..... | 10 |
| 2.2.4 Yr angen i ddatblygu ymwybyddiaeth o safonau cyfieithu ymhlith cyflogwyr | 11 |
| 2.2.5 Yr angen am godi ymwybyddiaeth o ddiben cyfieithu..... | 11 |
| 2.2.6. Yr angen i ddatblygu'r diwydiant cyfieithu i'w lawn botensial.... | 13 |
| 3. AMCANION | 15 |
| AMCAN 1 Asesu sefyllfa bresennol y maes cyfieithu Cymraeg/ Saesneg o ran y galw a'r diwallu. | 15 |
| 3.1.1 Cynnal arolwg ystadegol | 15 |
| 3.1.2 Strwythuro'r Diwydiant..... | 15 |
| 3.1.3 Astudio cyfraniad cyfieithu at newid agweddau at y Gymraeg.. | 16 |
| 3.1.4 Datblygu Cyfraniad Cyfieithu ym maes Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg..... | 16 |
| AMCAN 2 Datblygu'r Proffesiwn Cyfieithu Cymraeg/Saesneg drwy hybu safonau cyfieithu proffesiynol yng Nghymru | 19 |
| 3.2.1 Datblygu cyrsiau a fyddai'n arwain at gymhwyster proffesiynol ar gyfer cyfieithwyr..... | 19 |
| 3.2.2 Datblygu hyfforddwyr a chanolfannau hyfforddi ar gyfer cynnig cyrsiau proffesiynol..... | 19 |
| 3.2.3 Datblygu llwybr datblygiad proffesiynol i gyfieithwyr | 19 |
| 3.2.4 Terminoleg a Thechnoleg Gwybodaeth..... | 20 |
| 3.2.5 Datblygu Elfennau Ieithyddol o fewn y Cwricwlwm Addysg..... | 21 |
| 3.2.6 Codi statws y Proffesiwn Cyfieithu yng Nghymru a thu hwnt.... | 21 |
| AMCAN 3 Datblygu swyddogaeth CCC fel corff achredu a meincnodi safonau cyfieithu a chorff ymgynghorol | 24 |
| 3.3.1 Datblygu Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru Cyf. yn gorff achredu a meincnodi | 24 |
| 3.3.2 Cynyddu aelodaeth CCC ac adolygu ei systemau asesu ac arholi | 24 |
| 3.3.3 Datblygu swyddogaeth ymgynghorol CCC | 25 |
| 3.3.4 Cynrychioli'r Proffesiwn wrth ddatblygu cymhwyster proffesiynol | 25 |

| | | |
|-----------|---|-----------|
| AMCAN 4 | Diffinio'r strategaeth o fewn cenhadaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac <i>Iaith Pawb</i> a chyd-destun ehangach y Gymraeg | 27 |
| 3.4.1 | Y Gymraeg yn y Sector Cyhoeddus | 27 |
| 3.4.2 | Y Gymraeg yn y Sector Gwirfoddol ac ar lefel y gymuned | 28 |
| 3.4.3 | Y Gymraeg yn y Sector Preifat | 29 |
| 4. | CRYNODEB O'R PWYNTIAU GWEITHREDU | 31 |
| 5. | LLYFRYDDIAETH..... | 33 |

STRATEGAETH GENEDLAETHOL AR GYFER DATBLYGU'R PROFFESIWN CYFIEITHU CYMRAEG/SAESNEG

1. CYFLWYNIAD

1.1 Diben

Diben y ddogfen hon, a luniwyd gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru (CCC) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yw cyflwyno strategaeth a fydd yn datblygu'r proffesiwn cyfieithu Cymraeg/Saesneg. Bydd yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â swyddogaeth cyfieithu o fewn symudiad ehangach i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg

1.2 Cefndir ac amcanion

Yn adran 2 ceir crynodeb byr o hanes y proffesiwn dros y deugain mlynedd diwethaf, ynghyd â sylwadau cefndir helaethach ar gyflwr presennol y proffesiwn. Yn adran 3, ymdrinnir yn fanwl â phrif amcanion y strategaeth, sef:

- **Asesu sefyllfa bresennol y maes cyfieithu Cymraeg/Saesneg o ran y galw a'r diwallu.**
- **Datblygu'r proffesiwn cyfieithu Cymraeg/Saesneg drwy hybu safonau cyfieithu proffesiynol yng Nghymru.**
- **Datblygu swyddogaeth Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru (CCC) fel corff achredu a meincnodi safonau cyfieithu a chorff ymgynghorol.**
- **Diffinio'r strategaeth o fewn cenhadaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac *Iaith Pawb* a chyd-destun ehangach y Gymraeg**

Yn adran 4 ceir crynodeb o'r pwyntiau gweithredu ac yn adran 5 ceir llyfryddiaeth ddethol.

1.3 Y cyd-destun ehangach

Mae *Iaith Pawb*, sef cynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog, yn rhoi sêl ei fendith ar ddatblygu'r strategaeth hon. Ym mharagraff 4.44 *Iaith Pawb*, nodir y canlynol:

'datblygu ar y cyd â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru, **strategaeth gyfieithu genedlaethol**, a phrosiect i ddatblygu'r Gymdeithas, dan arolygiaeth y Bwrdd, yn gorff rheoleiddio ar gyfer y proffesiwn.' (*Iaith Pawb*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003, t. 50)

Mae'r strategaeth felly'n rhan o weledigaeth y Llywodraeth; mae hi hefyd yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol y Bwrdd a'i ymrwymiad i gynllunio ieithyddol cyfannol. Mae'r broses gyfieithu yn ei hanfod yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ac â newid arferion ei defnyddio. Ar sail astudiaeth o'r cyfraniad hwn y bwriad yw datblygu polisi a fydd yn sicrhau y

bydd gweithgarwch cyfieithu o'i blethu i gynlluniau canolog y Bwrdd yn cael ei ddefnyddio'n arf cadarnhaol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

1.4 Cyfieithu a gweithio'n ddwyieithog

Dylid pwysleisio mai ymdrin yn benodol â datblygu'r proffesiwn cyfieithu y mae'r ddogfen hon, a hynny o fewn cyd-destun ehangach gweithio'n ddwyieithog. Nid yw'r strategaeth yn mynd i'r afael â swyddogaeth y cyfieithydd wrth hwyluso gweithredu mewnol a gweithleoedd dwyieithog gan fod datblygu swydd y cyfieithydd yn y modd hwn yn ddibynnol ar ddulliau gweithio cyrff unigol ac ar strwythurau staffio'r cyrff hynny. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn edrych ar ddulliau o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle fel rhan o normaleiddio dwyieithrwydd ac mae'n gweithredu prosiectau penodol i'r perwyl hwn. Mae'r strategaeth hon yn ymwneud felly â chyfieithu fel un elfen sy'n cyfrannu at weithrediad dwyieithog cyrff sy'n gweithredu'n ddwyieithog yng Nghymru.

1.5 Gwireddu'r strategaeth

Er mwyn gwireddu'r strategaeth hon bydd rhaid i'r holl broffesiwn ei choleddu gan feithrin ymwybyddiaeth ymhlith pawb fod cyfieithu yng Nghymru yn rhan o broses ehangach. Hanfod gweithredu'r strategaeth fydd y bartneriaeth rhwng Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, y Bwrdd a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Y Gymdeithas fydd y cyfrwng i weithredu'r strategaeth, dan arolygiaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a chyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd ei gweithredu yn llwyddiannus hefyd yn dibynnu ar sefydlu nifer o bartneriaethau cadarn ymhlith budd-ddeiliaid y maes cyfieithu ac yn ehangach. I'r perwyl hwn byddwn yn sefydlu Fforwm Cyfieithu.

2. CEFNDIR

2.1 Cefndir hanesyddol

Yn ystod y deugain mlynedd diwethaf y datblygodd cyfieithu Cymraeg/Saesneg i fod yn broffesiwn yng Nghymru. Y prif ffactorau a ysgogodd hynny oedd:

- Cynnydd yn yr ymwybyddiaeth o hunaniaeth Gymreig a'r awydd i amlygu hynny drwy ddefnyddio'r Gymraeg
- Deddfwriaeth yn codi statws y Gymraeg
- Datganoli grym llywodraethu o Lundain a sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn fuan wedi i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1967 ddod i rym penodwyd cyfieithydd llawn-amser am y tro cyntaf, a hynny yn y Swyddfa Gymreig. Pan ad-drefnwyd llywodraeth leol ym 1974 crëwyd unedau cyfieithu gan dri chyngor. Lledodd yr arfer hwn i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus hyd onid oedd oddeutu 56 o gyfieithwyr amser llawn neu ran-amser erbyn canol yr wythdegau. Dichon fod sefydlu S4C yn gynnar yn yr wythdegau hefyd wedi cyfrannu at gynyddu'r hyder i roi amlygrwydd cyhoeddus cynyddol i'r Gymraeg. Gwelwyd cwmnïau cyfieithu masnachol bychain yn ymsefydlu erbyn diwedd yr wythdegau.

Gwelwyd cynnydd aruthrol yn y maes cyfieithu yn dilyn Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, a'r gofyn statudol ar i gyrff cyhoeddus lunio Cynlluniau Iaith yn pennu'r mesurau y dylent eu gweithredu i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus, yn ogystal â sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn Rhagfyr 1993. Parhaodd y cynnydd yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru yn 1996. Esgorodd sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gynnydd pellach nes i'r ymchwydd diweddaraf yn y gwaith cyfieithu beri i rai gwestiynu priodoldeb neilltuo cymaint o adnoddau ar gyfer hyn (gweler adran 2.2.5).

Er mai buddsoddiad ar ran y sector cyhoeddus yn bennaf a arweiniodd at ddatblygu cyfieithu yn broffesiwn cydnabyddedig yng Nghymru, ychydig iawn o fuddsoddiad cyhoeddus a gafwyd tan yn ddiweddar i geisio codi safonau a datblygu'r proffesiwn. Bydd y strategaeth yn ystyried:

- Cyfraniad Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (CCC) at sefydlu safonau cyfieithu proffesiynol yng Nghymru.
- Yr argymhellion ar gyfer datblygu'r proffesiwn yn *Ein Hiaith: Ei Dyfodol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003) ac *Iaith Pawb* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003).
- Argymhellion manwl adroddiad y *Gweithgor ar Reoleiddio a fabwysiadodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg* ar 14 Chwefror 2003 (gweler 'Papurau'r Bwrdd', 14 Chwefror 2003 yn www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

2.2 Cyflwr presennol y proffesiwn cyfieithu

2.2.1 Yr angen am safonau proffesiynol

Gwelodd Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad yn ystod yr arolwg a wnaeth o sefyllfa'r iaith Gymraeg fod gofyn cael mesur o reoleiddio yn y maes cyfieithu a galwyd ar y Bwrdd i ystyried y mater. Sefydlwyd gweithgor, a dyma fel y diffiniodd y gweithgor hwnnw'r broses reoleiddio mewn adroddiad a gymeradwydd y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2003:

'Sicrhau llwybr ar gyfer datblygiad proffesiynol cyfieithwyr Cymraeg/Saesneg.' (*Adroddiad ar Reoleiddio'r Proffesiwn Cyfieithu Cymraeg/ Saesneg*, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2003, gweler adran 'Papurau'r Bwrdd', 14 Chwefror 2003 yn www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

Gan fod yr adroddiad hwnnw'n manylu ar y sefyllfa a roddodd fod i'r galw am reoleiddio nid eir ati yma i ailadrodd y cefndir hwnnw dim ond nodi mai fel hyn y crynhowyd y broblem greiddiol yno:

'Ar hyn o bryd, mae unrhyw un yn gallu galw ei hun yn gyfieithydd ac ymsefydlu yn y proffesiwn. O'r herwydd, ac yn sgil diffyg rheoleiddio'r proffesiwn, ni ellir sicrhau safonau. Heb sicrhau safonau, ni ellir gwarantu cywirdeb.' (gweler uchod)

Yr oedd adroddiad cynharach gan y Bwrdd wedi pwysleisio bod sicrhau cywirdeb nid yn unig yn fater o safonau proffesiynol bellach ond yn fater cyfreithiol:

'O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1967, gallai'r Gweinidog ddatgan, fel y gwnaed mewn llawer iawn o enghreifftiau, pan fyddai achos o anghysondeb yn codi rhwng fersiwn Saesneg a fersiwn Cymraeg unrhyw ffurflen statudol, mai'r fersiwn Saesneg fyddai'n sefyll. Felly, nid oedd yn ofynnol bod y cyfieithiad Cymraeg yn gysáct o gywir. Ond o ganlyniad i Ddeddf 1993, pan fo anghysondeb rhwng fersiynau, mae'n rhaid ystyried y ddau fersiwn er mwyn penderfynu ystyr y testun. Felly bydd sicrhau cywirdeb cyfieithiadau yn bwysicach nag erioed. Bydd yn ofynnol iddynt fod yn gywir i drwch y blewyn oherwydd, os bydd anghysondeb rhyngddynt, dim ond y llys yn y pen draw a all benderfynu beth yw ystyr y testun.' (*Panel Cymraeg Swyddogol: Adroddiad*, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1995, Rhan 1. para.7)


Ym 1997 gweithredwyd ar un o argymhellion *Panel Cymraeg Swyddogol: Adroddiad*, sef:

'(y) dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg wahodd y Gymdeithas i ystyried y ffordd orau o ddatblygu ei gweithgarwch i gwrdd â'r anghenion cyfoes ac i weld ar ba delerau y gallai roi cefnogaeth iddi er mwyn ymestyn ei gwaith.' (ib. t.69)

2.2.2 Cyfraniad Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Sefydlwyd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ym 1976 yn llwyfan i drafod materion perthnasol i gyfieithu yng Nghymru. Dros y blynyddoedd bu'r Gymdeithas yn cynnal cynadleddau, seminarau a gweithdai er mwyn darparu fforwm i'r proffesiwn a bod yn gyfrwng i rannu arfer da ymhlith cyfieithwyr. Yn wyneb y cynnydd yn nifer y cyfieithwyr tua diwedd yr wythdegau penderfynwyd cyflwyno trefn ymaelodi ar sail asesiad o waith i sefydlu safonau proffesiynol yn y maes. Cyflwynwyd trefn ar gyfer ymaelodi ar ddwy lefel, lefel Sylfaenol ar gyfer y rhai'n cychwyn cyfieithu a lefel Gyflawn ar gyfer y rhai a oedd yn deilwng o aelodaeth broffesiynol lawn. Gweithgarwch cwbl wirfoddol oedd y gwaith asesu hwn fel holl waith arall y Gymdeithas bryd hynny.


Dechreuwyd derbyn grant gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym 1997 a dengys y graff isod y cynnydd a fu yn y gwaith hwn wedi hynny, yn arbennig wedi i drefn arholi gael ei sefydlu ym 1999 ar lefel Sylfaenol ac yna ar lefel Gyflawn yn 2003.



Graff1: Cynnydd yng ngweithgarwch arholi ac asesu CCC rhwng 1997 a 2005/6

Mae CCC bellach wedi dechrau asesu cyfieithu ar y pryd a sefydlu Aelodaeth Cyfieithu ar y Pryd ac Aelodaeth Interim Cyfieithu ar y Pryd i'r rhai sy'n aros am gael eu hasesu.

Cafwyd cynnydd cyson yn nifer yr aelodau dros yr un cyfnod ond rhaid cofio bod cryn lawer o symud rhwng y categorïau o aelodau wrth i aelodau sylfaenol lwyddo i ddod yn aelodau cyflawn ac felly nad yw cyfanswm nifer yr aelodau'n adlewyrchu'r gyfradd llwyddo ac ymaelodi.



Graff 2: Cynnydd yn aelodaeth CCC rhwng 1997 a Mawrth 2006

Ymhlith yr aelodau hyn y mae cyfieithwyr cyflogedig mewn sefydliadau cyhoeddus a chwmnïau preifat yn ogystal â chyfieithwyr ar eu liwt eu hunain. Cyhoeddir rhestr o'r aelodau ar wefan CCC ac mewn Cyfeirlyfr. Y rhestr hon o aelodau cydnabyddedig y bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei hargymell pan geir ymholiadau am gyfieithwyr.

Gweithgarwch arholi ac asesu CCC yw'r unig fesur o asesu annibynnol a gafwyd ar y proffesiwn cyfieithu Cymraeg/Saesneg yng Nghymru hyd yma¹. Y mae'r Gymdeithas wedi dechrau trafod sefydlu aelodaeth gorfforaethol gyda'r cwmnïau cyfieithu a byddai sefydlu trefn o'r fath yn ffordd o sicrhau y gellid cynnwys pawb yn y drafodaeth ar sut i ddatblygu a hyrwyddo'r proffesiwn yng Nghymru.

Yn 2005 derbyniwyd CCC yn aelod corfforaethol o'r *Fédération Internationale des Traducteurs*, (Ffederasiwn Rhyngwladol y Cymdeithasau Cyfieithu). Y mae CCC yn trafod materion cyfieithu'n gyffredinol gyda'r ITI (*The Institute of Translation and Interpreting*), er enghraifft, gweithredu Safon Ewropeaidd Gwasanaethau Cyfieithu (CEN/BTTF 138), sef y safon Ewropeaidd ar gyfer cynnig gwasanaethau cyfieithu, a materion cyfieithu yn y gymuned a chyfieithu yn y llysoedd gyda'r NRPSI.

2.2.3 Yr angen am hyfforddiant proffesiynol

Amlyga canran cymharol isel y rhai sy'n llwyddo yn arholiadau ac asesiadau CCC bod gwir angen datblygu hyfforddiant cydnabyddedig yn y maes a fyddai'n cwrdd â gofynion gwaith cyfieithu Cymraeg/Saesneg. Ateggodd *Iaith Pawb* yr angen hwn gan gyfeirio bod angen:

¹ Y mae'r ITI (Institute of Translation and Interpreting a'r IoL (Institute of Linguists) hefyd yn asesu cyfieithwyr Cymraeg/Saesneg.

‘sichrau cysondeb a datblygu cymhwyster safonol ar gyfer cyfieithwyr’
(ib. t.59)

Mae'r strategaeth hon yn gyfrwng i ddatblygu cymhwyster safonol a fydd yn adlewyrchu swyddogaeth arbennig y cyfieithydd yng Nghymru sy'n gweithio o fewn sefyllfa ddwyieithog lle ceisir cynyddu'r arfer o ddefnyddio'r iaith.

2.2.4 Yr angen i ddatblygu ymwybyddiaeth o safonau cyfieithu ymhlith cyflogwyr

Y mae angen codi statws swyddi cyfieithu o fewn sefydliadau fel rhan o broses i alluogi'r sefydliadau hynny i gwrdd â'r gofyn statudol sydd arnynt dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Gwelir gwaith cyfieithu yn llawer rhy aml yn cael ei gyflawni gan yr unig berson sy'n digwydd bod yn medru siarad Cymraeg. Disgwylir i'r siaradwr Cymraeg fedru cyflawni'r gwaith heb unrhyw hyfforddiant, ac yn aml heb gael unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol am wneud hynny. Y mae hyn yn niweidiol i swydd y cyfieithydd ac i'r iaith fel ei gilydd.

Mae'r Bwrdd yn cydweithio â chyrff sydd â Chynlluniau Iaith neu sy'n cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd er mwyn ceisio sichrau bod dogfennau a gyfieithir yn raenus ac yn ateb y diben. Mae sefydlu dulliau o warantu ac arolygu safon yn rhan o'r canllawiau a roddir i gyrff wrth iddynt ddiwygio eu cynlluniau iaith.

2.2.5 Yr angen am godi ymwybyddiaeth o ddiben cyfieithu

Cyfieithu testunau

Cyfieithu fu'r gyfrwng i roi delwedd ddwyieithog i sefydliadau cyhoeddus ac i weithredu hawl yr unigolyn i dderbyn gohebiaeth, ffurflenni, cyhoeddiadau etc. yn ei ddewis iaith. Dechreuodd rhai bryderu² y gallai darparu gwasanaeth cyfieithu fel hyn fod yn rhywbeth arwynebol lle darparai sefydliad yr arwyddion allanol o ddwyieithrwydd heb o reidrwydd newid ei agweddau at yr iaith.

Ceir uned gyfieithu mewn 12 o'r 22 uned llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r unedau hynny wedi datblygu mewn gwahanol ffyrdd o ganlyniad i ofynion gwahanol ac maent wedi eu lleoli o fewn gwahanol adrannau. Bu cryn dipyn o werthuso a chynllunio o dan faner Gwerth Gorau, ac wrth i Gynlluniau Iaith Gymraeg gael eu diwygio rhoddwyd mwy o ystyriaeth i rôl

² Er enghraifft yn ei anechiad, *Rhagolygon yr Iaith*, Mawrth 2002, dywedodd Rhodri Williams, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar y pryd:

“Mae mwy i'w wneud hefyd yn y maes cyfieithu. Rwy am weld cyfieithu yn datblygu yn wir wasanaeth ac nid yn enw arall ar dalu gwrogaeth i'r iaith. Gwasanaeth cynhaliol yw e.

Nid bychanu'r proffesiwn cyfieithu ydw i yn awr, ond chwilio am fwy o ddychymyg a chynllunio cyfannol gan sefydliadau sydd ar hyn o bryd yn credu mai cyfieithu yw'r unig ateb wrth gynnig gwasanaeth mewn dwy iaith.”

unedau cyfieithu nag a roddwyd cynt. Mae angen dysgu rhagor am wahanol amcanion unedau cyfieithu yn y sector cyhoeddus ac yn seiliedig ar hynny ddod i gytundeb ynglŷn ag arferion gorau a gosod safonau cydnabyddedig. Gellid gwneud hyn drwy ddatblygu dyfarniad i gydnabod rhagoriaeth yn y maes.

Dylid mynd ati i bennu a chynllunio gwasanaethau cyfieithu o fewn sefydliadau ar sail polisi pendant fel eu bod yn hyrwyddo cynlluniau iaith. Drwy gynllunio'n fwriadol gall unedau cyfieithu gyfrannu'n sylweddol at Gymreigio agweddau ar weinyddiad mewnol sefydliad. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn cynnal prosiectau sy'n edrych ar agweddau ar weinyddu'n ddwyieithog mewn cyrff cyhoeddus ac ar gyfraniad gwasanaethau cyfieithu.

Bydd angen yr un cynllunio i bwrpas mewn sefydliadau lle nad oes unedau cyfieithu yn arbennig lle bydd yr awdurdodau lleol yn dibynnu ar wasanaethau masnachol i gwrdd â gofynion eu cynlluniau iaith.

Blaenoriaethu a chywair

Wrth ystyried yr angen i flaenoriaethu gwaith cyfieithu byddai'n dda gweld rhagor o gyrff cyhoeddus yn dilyn arfer y Cynulliad o ysgrifennu dogfennau Saesneg gwreiddiol mewn Saesneg clir. Y duedd fu defnyddio gwasanaethau Plain English a Cymraeg Clir yn hytrach na hyrwyddo'r egwyddor o fod yn gryno ac eglur fel egwyddor gyffredinol. Arfer dda arall yn y Cynulliad yw golygu dogfennau yn yr iaith wreiddiol er mwyn cynhyrchu dogfennau darllenadwy a chryno ar gyfer y gynulleidfa darged a hynny yn y pen draw yn hwyluso gwaith y cyfieithydd ac arbed adnoddau cyfieithu.

Mae datblygu canllawiau arddull ysgrifennu Cymraeg a Saesneg sydd wedi'u hanelu at y defnyddiwr hefyd yn rhan o'r canllawiau y bydd y Bwrdd yn eu rhoi i gyrff cyhoeddus wrth iddynt ddiweddarau eu cynlluniau iaith.

Cyfieithu ar y pryd

Mynegwyd cryn lawer o bryder ymhlith cyfieithwyr ac eraill am y sefyllfaoedd niferus lle na wneir defnydd digonol o wasanaethau cyfieithu ar y pryd wedi iddynt gael eu darparu ar gyfer cyfarfodydd. Er gwaethaf y camau a gymerwyd i lunio llyfrynnau yn gosod canllawiau ar gyfer cynnal cyfarfodydd dwyieithog (e.e. *O Glust i Glust*, gan Menter Môn a Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru) ni welwyd llawer o welliant yn y sefyllfa. Mae'r Bwrdd yn annog cyrff i ddatblygu canllawiau cynnal cyfarfodydd dwyieithog at eu defnydd eu hunain. Bwriada'r Bwrdd hefyd gyhoeddi canllawiau sy'n cynnwys awgrymiadau defnyddiol ar gyfer cadeiryddion, trefnwyr, hwyluswyr a mynychwyr cyfarfodydd dwyieithog yn y dyfodol.

Bydd y Bwrdd yn hyrwyddo trafodaeth ynglŷn â'r mater yng nghyd-destun gwaith y Bwrdd a'i bartneriaid ym maes hyder ieithyddol ac ymwybyddiaeth iaith.

Un maes y talwyd llawer o sylw iddo'n ddiweddar yn y cyswllt hwn yw'r llysoedd a bydd y strategaeth hon yn gyfrwng i barhau'r drafodaeth a gychwynnwyd yn *Defnyddio Rheithgorau Dwyieithog (Saesneg a Chymraeg) Mewn Rhai Treialon Troseddol yng Nghymru* (Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol, 2005). Bellach gyda'r holl lysoedd wedi eu dwyn ynghyd dan Asiantaeth Gwasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi a swydd wedi ei chreu i ganolbwyntio ar gyfieithu ar y pryd yn y llysoedd bydd modd cynnal trafodaeth gyson wrth weithredu'r strategaeth.

2.2.6. Yr angen i ddatblygu'r diwydiant cyfieithu i'w lawn botensial

Y mae lle i gredu nad yw gwir botensial y diwydiant cyfieithu wedi ei ddatblygu er lles yr economi yng Nghymru. Collir cyfleoedd oherwydd diffyg strwythuro'r diwydiant a diffyg datblygu hyfforddiant ar gyfer y proffesiwn. Amlygwyd hyn mewn astudiaeth a gomisiynodd Menter a Busnes gan Iaith Cyf, sef *Astudiaeth o botensial economaidd busnesau iaith-gysylltiol* (Menter a Busnes, 2001.) fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth i ystyried potensial cyfieithu i greu cyflogaeth, yn arbennig mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith lle y mae angen cryfhau'r economi.

CRYNODEB

Argymhellion *iaith Pawb*:

'Datblygu ar y cyd â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru, **strategaeth gyfieithu genedlaethol**, a phrosiect i ddatblygu'r Gymdeithas, dan arolygiaeth y Bwrdd, yn gorff rheoleiddio ar gyfer y proffesiwn.'

'sichrau cysondeb a datblygu cymhwyster safonol ar gyfer cyfieithwyr'

Mae angen:

- Datblygu ymwybyddiaeth o safonau proffesiynol
- Datblygu cymwysterau safonol
- Datblygu ymwybyddiaeth o ddiben cyfieithu
 - ymhlith cyfieithwyr
 - ymhlith cyflogwyr a chomisiynwyr
 - comisiynwyr cyfieithu ar y pryd
- Gwireddu potensial y diwydiant cyfieithu ar gyfer yr economi

Camau:

- Bydd y Bwrdd yn parhau i annog cyrff i roi ystyriaeth i bwysigrwydd sichrau safonau cyfieithu, gan gynnwys cywair ac arddull, ac i swyddogaeth y cyfieithydd.
- Bydd y Bwrdd yn hyrwyddo trafodaeth ynglŷn â'r diffyg defnydd o wasanaethau cyfieithu ar y pryd yng nghyd-destun gwaith y Bwrdd a'i bartneriaid ym maes hyder ieithyddol ac ymwybyddiaeth iaith.

3. AMCANION

AMCAN 1 Asesu sefyllfa bresennol y maes cyfieithu Cymraeg/Saesneg o ran y galw a'r diwallu.

3.1.1 Cynnal arolwg ystadegol

Ar ddechrau 2005 gwnaed *Arolwg o'r Diwydiant Cyfieithu yng Nghymru* ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Y gobaith oedd asesu sefyllfa bresennol y maes cyfieithu Cymraeg/Saesneg o ran y galw a'r diwallu. Holwyd cyfieithwyr a chwmnïau cyfieithu yn ogystal â chomisiynwyr gwaith cyfieithu er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

- nifer y rhai sy'n gweithio yn y maes cyfieithu
- natur y galw
- y modd y mae'n cael ei ddiwallu
- natur y gweithgarwch
- natur cyflogaeth yn y maes
- natur y gweithgarwch masnachol

Ymatebodd 19% o'r cyfieithwyr a holwyd ac 20% o'r comisiynwyr cyfieithu sy'n gyfradd uwch na'r cyffredin o ymatebion i holiaduron post.

Er mwyn ymchwilio ymhellach i batrwm gweithgarwch y diwydiant agorir trafodaethau gydag Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau'r Cynulliad.

3.1.2 Strwythuro'r Diwydiant

Ar sail adnabyddiaeth fewnol drylwyr o'r maes, bernir bod angen strwythuro'r diwydiant cyfieithu yn fwy effeithiol i sicrhau bod y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol yn elwa ar y diwydiant cyfieithu a'r buddsoddiad cyhoeddus sylweddol sydd ynddo. Byddai rhoi sylw i'r mater hwn yn gweithredu yn unol ag ysbryd *Iaith Pawb* lle ceir pwyslais cyffredinol ar brif-frydio'r Gymraeg a sicrhau'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Manylir yn yr adran ar Cynhyrchu Busnes a Menter (ib. t .23) ar yr agwedd economaidd:

- '3.9 Bydd y mecanweithiau cyflenwi rhaglenni hefyd yn rhoi ystyriaeth i gymeriad Cymraeg cymunedau penodol ac yn sicrhau fod hyn yn cael ei ystyried wrth ddarparu gwasanaethau. Yn ogystal, mae angen hyrwyddo potensial masnachol sectorau sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg i'r eithaf.
- 3.10 Yn sail i hyn y mae'r angen i wybod llawer mwy am y cysylltiadau rhwng datblygiad economaidd a'r iaith. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r AD a Menter a Busnes i ddatblygu fframwaith ar gyfer ymchwil a datblygu a fydd yn sail well i'r berthynas rhwng economi a'r iaith ar lefelau strategol a gweithredol.' (ib. t .23)

Y mae angen adeiladu ar yr astudiaethau o'r diwydiant a wnaed hyd yma, er enghraifft, astudiaeth Siwan Davies *Arolwg o'r Diwydiant Cyfieithu yng Nghymru* (2003) ar gyfer gradd MScEcon Adran Fusnes Prifysgol Cymru Aberystwyth, a'r adroddiad *Astudiaeth o botensial economaidd busnesau iaith-gysylltiol* (Menter a Busnes, 2001).

3.1.3 Astudio cyfraniad cyfieithu at newid agweddau at y Gymraeg

Trafodir yn fanylach gyfraniad cyfieithu at newid agweddau dan Amcan 4 wrth ystyried cydberthynas y strategaeth gyfieithu â strategaeth gyffredinol y Bwrdd. Fodd bynnag, er mwyn goleuo'r drafodaeth honno ar weithredu'r strategaeth byddai'n dda cael astudiaeth o gyfraniad cyfieithu at newid agweddau at yr iaith Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus sydd ag uned gyfieithu fewnol. Dechreuwyd ar y gwaith hwnnw mewn astudiaeth a wnaeth Judith Kaufmann fel rhan o'i Diploma ym Mhrifysgol Leipzig, *The Importance of Translation for the Strengthening of Bilingualism in Wales*, 2001.

Fel rhan o waith y Bwrdd yn edrych ar hyder ieithyddol a defnydd o'r iaith byddwn yn ystyried sut y bu i agweddau gweithwyr newid at yr iaith dros gyfnod lle daeth y Gymraeg yn fwy amlwg yn gyhoeddus a phwyso a mesur i ba raddau y mae cyfieithiadau i'r Gymraeg o ddogfennau swyddogol yn gweithredu fel patrwm i godi hyder yn y gweithlu i fentro drafftio yn y Gymraeg eu hunain. Drwy astudiaeth o'r fath byddai modd gweld i ba raddau y mae'r hyder newydd hwn yn newid agwedd staff yn gyffredinol at y Gymraeg, a hyn, yn ei dro'n cael ei adlewyrchu yn agweddau'r gymdeithas ehangach, er enghraifft, wrth i rieni benderfynu a fyddent yn trosglwyddo'r iaith i'w plant.

Dylid cynnwys hefyd astudiaeth o ddylanwad cyfieithu ar y pryd gan fod lle i gredu y gall dylanwad cyfieithu ar y pryd dreiddio'n ddyfnach na'r gair ysgrifenedig gan y gall trafod materion yn iaith naturiol y gymuned ac mewn iaith a adlewyrcha ei hunaniaeth arwain at benderfyniadau sy'n nes at ddyheadau'r gymuned. Yn ystod 2005-2006 gwnaed astudiaeth gychwynnol o ddylanwad cyfieithu ar y pryd mewn sefyllfaoedd cyhoeddus a chafwyd canlyniadau cymysg oedd yn dangos bod angen astudiaeth bellach o'r maes.

3.1.4 Datblygu Cyfraniad Cyfieithu ym maes Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg

Byddwn yn ystyried cyfraniad cyfieithu at atgyfnerthu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg o'r sector cynradd i'r sector uwchradd. Byddwn yn edrych ar sut y gall y proffesiwn gyfrannu at y gwaith cynllunio a wneir ar raddfa genedlaethol i ddarparu adnoddau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, megis gan y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu. Y mae angen datrys problem dyblygu cyfieithiadau o adnoddau dysgu gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth i gynorthwyo yn hyn o beth. Fel hyn gellid hefyd sicrhau cysondeb termau o fewn y maes addysgol.

Yna bwriadwn annog cynrychiolwyr cyrff megis Cyngor Llyfrau Cymru, CBAC ac Adran Cymwysterau a Chwricwlwm Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried cydweithio ar ddatblygu rhaglen gyhoeddi genedlaethol yn y maes hwn a

fyddai'n esgor ar gynllun cynhwysfawr i gyfieithu ac addasu adnoddau ar gyfer dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Swyddogaeth Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn hyn i gyd fyddai hwyluso cyfle i arbenigwyr gwahanol bynciau gydweithio â chyfieithwyr.

CRYNODEB

Amcan 1

Byddwn yn parhau i gydweithio ag eraill i asesu sefyllfa'r maes cyfieithu Cymraeg/Saesneg o ran y galw a'r diwallu drwy:

1. Ymchwilio i botensial y diwydiant cyfieithu o fewn yr economi a'r angen i'w strwythuro
2. Astudio cyfraniad cyfieithu at newid agweddau at yr iaith Gymraeg
3. Datblygu cyfraniad cyfieithu i faes Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg

Yn benodol:

- Er mwyn ymchwilio ymhellach i batrwm gweithgarwch y diwydiant agor trafodaethau gydag Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau'r Cynulliad.
- Fel rhan o waith y Bwrdd yn edrych ar hyder ieithyddol a defnydd o'r iaith byddwn yn ystyried sut y bu i agweddau gweithwyr newid at yr iaith dros gyfnod lle daeth y Gymraeg yn fwyfwy gweladwy a phwyso a mesur i ba raddau y mae cyfieithiadau i'r Gymraeg o ddogfennau swyddogol yn gweithredu fel patrwm i godi hyder yn y gweithlu i fentro drafftio yn y Gymraeg eu hunain.
- Fel rhan o swyddogaeth y Fforwm Cyfieithu byddwn yn ystyried cyfraniad cyfieithu at atgyfnerthu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg o'r sector cynradd i'r sector uwchradd.

AMCAN 2 Datblygu'r Proffesiwn Cyfieithu Cymraeg/Saesneg drwy hybu safonau cyfieithu proffesiynol yng Nghymru

3.2.1 Datblygu cyrsiau a fyddai'n arwain at gymhwyster proffesiynol ar gyfer cyfieithwyr

Heb roi'r flaenoriaeth i ddatblygu hyfforddiant cyfieithu proffesiynol perthnasol i sefyllfa cyfieithu Cymraeg/Saesneg ni ellir gobeithio codi safonau cyfieithu yng Nghymru. Y proffesiwn ddylai achredu unrhyw gyrsiau a fydd yn arwain at gymwysterau safonol cenedlaethol ym maes cyfieithu testunau a chyfieithu ar y pryd. Bydd CCC yn datblygu fframwaith ar gyfer cyrsiau cyfieithu proffesiynol wedi'u hachredu a thrwy'r Fforwm Gyfieithu yn trafod gyda'r cyrff perthnasol ddulliau posibl o gydweithio i ddatblygu rhai o'r cymwysterau hyn.

3.2.2 Datblygu hyfforddwyr a chanolfannau hyfforddi ar gyfer cynnig cyrsiau proffesiynol

Bydd angen buddsoddi er mwyn datblygu cyfieithwyr yn hyfforddwyr ac er mwyn datblygu yr adnoddau angenrheidiol i hyfforddi. Rhagwelir y bydd y prifysgolion yn chwarae rôl allweddol drwy gynnig cyrsiau sylfaen o hyfforddiant ieithyddol i ddarpar gyfieithwyr ac o bosibl, maes o law, gynnig cyrsiau gradd mewn cyfieithu Cymraeg/Saesneg. Fodd bynnag, byddai datblygu canolfan newydd ar gyfer hyfforddi a chefnogi cyfieithwyr yn symbyliad i sicrhau'r datblygiad a'r dilyniant ôl-radd angenrheidiol i'r cyrsiau hynny drwy ddatblygu a sefydlu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer gofynion galwedigaethol y proffesiwn newydd hwn yng Nghymru.

Mewn arolwg a wnaed o ofynion hyfforddi gan Iaith Cyf. a CCC, *Sefydlu Asiantaeth Hyfforddi, Datblygu a Chefnogi Cyfieithwyr; Astudiaeth Dichonoldeb* (Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a Iaith Cyf, 2004), barn y mwyafrif o gyfieithwyr oedd mai hyfforddiant yn seiliedig ar gyflawni tasgau go iawn fyddai'r hyfforddiant gorau. Fel rhan o'r fframwaith ar gyfer datblygu cyrsiau cyfieithu proffesiynol, byddwn yn ystyried dulliau o fwrw ymlaen i sefydlu asiantaeth i hyfforddi a chefnogi cyfieithwyr mewn cydweithrediad â'r sector cyhoeddus a'r sector preifat fel y gellid datblygu hyfforddiant perthnasol i ateb y galw yn y diwydiant heddiw.

3.2.3 Datblygu llwybr datblygiad proffesiynol i gyfieithwyr

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw lwybr datblygiad proffesiynol cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer cyfieithwyr. Heb strwythur eglur o'r fath, mae'n debygol y bydd y sefyllfa gymysglyd bresennol o ran statws, amodau a thelerau gwaith cyfieithwyr yn parhau.

Y mae angen sicrhau cydnabyddiaeth gyffredinol i arwyddion o gyrhaeddiad galwedigaethol cyfieithydd wrth iddo ddatblygu yn ei swydd. Byddai lefelau aelodaeth Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn fan cychwyn i ystyried hyn. Drwy lwyddo i ennill Aelodaeth Sylfaenol y mae cyfieithydd yn profi ei fod wedi cyrraedd safon un sydd wedi bod yn gweithio dan oruchwyliaeth cyfieithydd

profiadol am flwyddyn. Yna wedi cyfnod pellach o ymarfer a hyfforddiant gall ymgeisio am Aelodaeth Gyflawn o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru sy'n arwydd ei fod wedi cyrraedd y safon lle gall weithredu yn annibynnol heb fod dan oruchwyliaeth cyfieithydd profiadol.

Gallai partneriaeth rhwng y prifysgolion, cwmnïau ac unedau cyfieithu a chanolfan hyfforddi newydd a drafodir uchod fod yn fodd i bontio rhwng cymwysterau academiaidd pur ac arbenigedd cymhwysol a phrofiad proffesiynol ac ymarferol. Gallai partneriaeth o'r fath gynnig trywydd priodol ac eglur i arwain graddedigion at sefyll profion y Gymdeithas ac ymlaen wedyn at gyfieithu yn y gweithle a chyfieithu i gleientiaid. Yn dilyn creu fframwaith ar gyfer datblygu cyrsiau cyfieithu proffesiynol byddwn yn agor trafodaethau rhwng y partneriaid posibl i ystyried sefydlu asiantaeth hyfforddi ar gyfer y diwydiant.

Credwn y byddai datblygiad partneriaethol o'r math a drafodir uchod yn gyfraniad adeiladol iawn, nid yn unig at reoleiddio'r proffesiwn yn unol ag amcanion *laith Pawb*, ond hefyd at normaleiddio cyfieithu fel proffesiwn, oherwydd byddai'n amlwg ac yn hollol glir i ddarpar fyfyrwyr cyfieithu beth fyddai'r trywydd hyfforddi a datblygu sy'n arwain at weithio fel cyfieithydd cydnabyddedig.

Yn eu tro, byddai eglurder a thryloywder y trywydd hyfforddiant proffesiynol yn sicr o godi ymwybyddiaeth, ennyn diddordeb a chynyddu ymddiriedaeth pobl Cymru yn y broses gyfieithu, gan gyfrannu yn sgil hynny at normaleiddio dwyieithrwydd – un o amcanion canolog *laith Pawb*.

3.2.4 Terminoleg a Thechnoleg Gwybodaeth

Er mwyn hyrwyddo gwaith cyfieithwyr ac er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn meysydd newydd ac arloesol o bob math mae'n hanfodol bod termau safonol ar gael i'w defnyddio gan gyfieithwyr wrth eu gwaith a chan y cyhoedd yn gyffredinol. Comisiynodd y Bwrdd a chyrrff eraill restrau o dermau dros y blynyddoedd mewn amrywiol feysydd a bellach maent wedi eu crynhoi yn y gronfa ddata genedlaethol o dermau wedi'u safoni. Mae diffyg cysondeb yn y termau safonol sydd ar gael i'r cyhoedd yn faen tramgwydd yn y maes hwn, ac er mwyn mynd i'r afael â hyn, nododd y Bwrdd ei fwriad yn *Dyfodol y Gymraeg – Cynllun Strategol* i ddiffinio a sefydlu swyddogaeth iddo'i hun, ac yna i Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel y corff cenedlaethol i gydlynu safoni termau ac enwau lleoedd.

Dengys yr *Arolwg o'r Diwydiant Cyfieithu yng Nghymru* (gweler 3.1.1) bod cyfieithwyr yn ymwybodol o fanteision technoleg gwybodaeth i'w gwaith, gan fod 80% o'r cyfieithwyr a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r gosodiad 'y gall Technoleg Gwybodaeth wella byd cyfieithwyr.'

Buddsoddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn helaeth dros y blynyddoedd diwethaf i ddatblygu adnoddau technoleg gwybodaeth, e.e. datblygu adnoddau gwirio sillafu a sicrhau acenion ac y mae gwir angen sicrhau bod yr adnoddau hyn ar gael yn rhwydd i gyfieithwyr wrth eu gwaith, ac i'r cyhoedd

hefyd, lle bo modd. Bydd gofyn i gyfieithwyr ymgynabod â'r dechnoleg ddiweddaraf fel rhan o'u hyfforddiant.

Nodir yn *laith Pawb* y bydd y gronfa ddata genedlaethol o dermau safonol yn 'cael ei datblygu ar ffurf a fydd yn cyd-daro â chronfa ddata cof cyfieithu cenedlaethol a fydd yn dileu'r angen i gyfieithu'r un peth ddwywaith' (ib. t. 50). Mae *Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a'r laith Gymraeg* y Bwrdd yn amlinellu sut y gall Technoleg Gwybodaeth gynorthwyo'r diwydiant cyfieithu yng Nghymru ac mae'n cynnwys camau i ystyried pa gyrrff cyfochrog o gyfieithiadau segmentog y byddai modd eu hymgorffori yn y gronfa ddata genedlaethol o gofion cyfieithu.

3.2.5 Datblygu Elfennau Ieithyddol o fewn y Cwricwlwm Addysg

Gan nad oes modd cyflwyno unrhyw hyfforddiant cyfieithu i raddedigion nac eraill heb fod ganddynt gefndir ieithyddol, yr ydym yn argymhell y dylai'r Cynulliad wneud ei ddelfryd o greu Cymru ddwyieithog yn ganolog mewn strategaethau addysg eraill megis ei strategaeth ar lythrennedd a'i strategaeth ar ieithoedd tramor modern, *Ieithoedd sy'n Cyfrif* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002).

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu cyflwyno cyrsiau cyfieithu yn yr ysgol nac ychwaith yn argymhell y dylai disgyblion ymgymryd â gwaith cyfieithu. Ond byddem yn croesawu gweld Paneli Pwnc y Gymraeg a'r Saesneg yn ystyried sut y gallent hwy gyfrannu at ddatblygu ymwybyddiaeth o'r ddwy iaith a chryfhau ymwybyddiaeth disgyblion o deithi, cystrawen a phriod-ddulliau'r ddwy iaith ac o ieithoedd tramor modern. Y mae *Ieithoedd sy'n Cyfrif* wedi amlygu'r angen a dylid sicrhau bod cyfle i'r proffesiwn gyfrannu at y gwaith a argymhellir ar dudalen 8 yr adroddiad hwnnw:

'Byddwn yn comisiynu ACCAC i weithio gydag Estyn i lunio canllawiau ar ddysgu ieithoedd o Gyfnod Allweddol 1 i 3. Bydd y canllawiau hyn yn sefydlu egwyddorion ac argymhellion sy'n gyffredin i Saesneg, Cymraeg ac ieithoedd tramor. Bydd yn helpu athrawon i adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd eisoes, ac yn helpu i feithrin mwy o gydweithio rhwng adrannau Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern.' (*Ieithoedd sy'n Cyfrif*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002, .t.8)

O fewn y cyd-destun hwn gellid cyflwyno elfennau o addysg a fyddai'n arwain at ddatblygu ymwybyddiaeth iaith yn y cwricwlwm er mwyn dyfnhau dirnadaeth disgyblion o hanfodion dwyieithrwydd a deuddiwylliannedd.

Bydd y Bwrdd yn parhau i gydweithio â CILT Cymru i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn datblygiadau perthnasol yn y maes ieithoedd tramor modern.

3.2.6 Codi statws y Proffesiwn Cyfieithu yng Nghymru a thu hwnt

Bydd angen ymgyrch i farchnata gyrfa cyfieithydd Cymraeg/Saesneg ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd a myfyrwyr er mwyn codi statws y swydd

ymhlith darpar gyfieithwyr. Gellid hefyd ddefnyddio ymgyrch ehangach gan y Bwrdd a'i bartneriaid i hyrwyddo swyddi ym maes iaith i godi statws y swydd. Dull arall o hyrwyddo'r swydd fydd cydweithio â Gyrfa Cymru.

Mae angen newid agweddau myfyrwyr yn yr ysgolion uwchradd tuag at gyfieithu Cymraeg/Saesneg gan ddenu mwy o ddisgyblion sy'n ymddiddori mewn ieithoedd tramor yn ogystal â'r rhai sy'n ymddiddori yn y Gymraeg i ystyried dilyn gyrfa yn cyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Dylid annog rhagor o astudiaethau cymharol o weithgarwch cyfieithu mewn gwledydd lle cyfieithir i iaith lleiafrifol/ieithoedd lleiafrifol. Bydd hyn yn amserol wrth i'r safon Ewropeaidd ar gyfer y maes, y Safon Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Cyfieithu, gael ei chyflwyno. Bydd CCC yn parhau i drafod gyda'r ITI, NRPSI a'r ATC wrth i'r BSI fwrw ymlaen i weithredu'r drefn a argymhellir dan y safon.

CRYNODEB

Amcan 2

Datblygu'r Proffesiwn Cyfieithu Cymraeg/Saesneg drwy hybu safonau cyfieithu proffesiynol yng Nghymru drwy:

1. Lunio fframwaith ar gyfer cyflwyno cymwysterau safonol cenedlaethol ar gyfer cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd
2. Datblygu llwybr datblygiad proffesiynol i gyfieithwyr
3. Cydweithio i ddatblygu elfennau ieithyddol o fewn y Cwricwlwm Addysg
4. Codi statws y Proffesiwn Cyfieithu yng Nghymru a thu hwnt

Yn benodol:

- Bydd CCC yn datblygu fframwaith ar gyfer cyrsiau cyfieithu proffesiynol wedi'u hachredu ac yn trafod dulliau posibl o gydweithio i ddatblygu rhai o'r cymwysterau hyn gyda'r cyrff perthnasol.
- Bydd y Fforwm Cyfieithu yn trafod gyda'r cyrff perthnasol ddulliau posibl o gydweithio i ddatblygu rhai o'r cymwysterau hyn.
- Fel rhan o'r fframwaith ar gyfer datblygu cyrsiau cyfieithu proffesiynol, bydd CCC yn ystyried dulliau o fwrw ymlaen i sefydlu asiantaeth i hyfforddi a chefnogi cyfieithwyr.
- Bydd y Bwrdd yn mynd ati i ddiffinio a sefydlu swyddogaeth iddo'i hun, ac yna i Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel y corff cenedlaethol i gydlynu safoni termau ac enwau lleoedd.
- Bydd y Bwrdd yn parhau i gydweithio â CILT Cymru i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn datblygiadau perthnasol ym maes ieithoedd tramor modern.
- Bydd CCC yn parhau i drafod gyda'r ITI, NRPSI a'r ATC wrth i'r BSI fwrw ymlaen i weithredu'r drefn a argymhellir dan y safon CEN/BTTF 138.

AMCAN 3 Datblygu swyddogaeth CCC fel corff achredu a meincnodi safonau cyfieithu a chorff ymgynghorol

3.3.1 Datblygu Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru Cyf. yn gorff achredu a meincnodi

Cafwyd cytundeb bellach rhwng y Bwrdd, Llywodraeth y Cynulliad ac CCC mai drwy reoleiddio y gellir sicrhau safonau cyfieithu proffesiynol ym maes cyfieithu Cymraeg/Saesneg:

‘Mae’r ddadl dros reoleiddio’r proffesiwn yn glir: Heb reoleiddio, ni ellir sicrhau safonau; a heb sicrhau safonau, ni ellir gwarantu cywirdeb. Nid oes dim ar hyn o bryd yn rhwystro neb rhag galw ei hun yn gyfieithydd ac ymsefydlu yn y proffesiwn.’ (*Adroddiad ar Reoleiddio’r Proffesiwn Cyfieithu Cymraeg/Saesneg*, gweler adran ‘Papurau’r Bwrdd’, 14 Chwefror 2003 yn www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

Dyma fel y diffiniodd y gweithgor hwnnw’r broses reoleiddio mewn adroddiad a gymeradwyodd y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2003:

‘yn gyntaf, datblygu CCC fel y bo mwy a mwy o gyfieithwyr cymwys yn penderfynu ymaelodi â hi; ac yn ail, datblygu cymwysterau i gyfieithwyr fel rhan o gynllun datblygiad proffesiynol parhaus ar eu cyfer.’ (*Adroddiad ar Reoleiddio’r Proffesiwn Cyfieithu Cymraeg/Saesneg* gweler uchod)

Y mae’r Bwrdd eisoes yn cydnabod CCC fel corff meincnodi drwy gyfeirio ymholwyr at y cyfeirlyfr o gyfieithwyr a fu’n llwyddiannus ym mhrosesau arholi ac asesu’r Gymdeithas. Fel y gwelir yn y graff yn 2.2.2 bu cynnydd sylweddol yn nifer y rhai sy’n ceisio aelodaeth o’r Gymdeithas. Fel rhan o’r gwaith o ddatblygu’n gorff achredu a meincnodi bydd CCC yn llunio fframwaith ar gyfer cyflwyno cymwysterau proffesiynol gan wneud arolwg o anghenion hyfforddiant unedau cyfieithu ac agor trafodaethau gyda gwasanaethau cyfieithu’r Llywodraeth a’r Senedd, cwmnïau cyfieithu masnachol ac aelodau unigol o CCC a chyrrff proffesiynol eraill.

3.3.2 Cynyddu aelodaeth CCC ac adolygu ei systemau asesu ac arholi

Bydd y Gymdeithas yn parhau i adolygu ei systemau arholi ac asesu yn unol ag argymhelliad yr adroddiad ar reoleiddio:

‘Dylai CCC ailedrych ar ei systemau arholi ac asesu, gan gynnal trafodaethau gyda Gwasanaethau Cyfieithu’r Cynulliad a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus, a chyda cwmnïau cyfieithu yn y sector preifat.’ (*Adroddiad ar Reoleiddio’r Proffesiwn Cyfieithu Cymraeg/Saesneg*, gweler uchod)

Y mae camau breision wedi eu gwneud i ystyried priodoldeb sefydlu aelodaeth gorfforaethol. Bydd y drafodaeth hon yn parhau ac yn ymestyn i

gynnwys trafodaeth ar gyflwyno systemau rheoli ansawdd a llwybr datblygiad proffesiynol parhaus i gyfieithwyr. Rhoddir ystyriaeth i gyfraniad y safon Ewropeaidd ar gyfer cyfieithu at y prosesau hyn.

3.3.3 Datblygu swyddogaeth ymgynghorol CCC

Bydd swyddogaeth CCC yn ymestyn y tu hwnt i'w rôl reoleiddio a bydd hefyd yn cynnwys rôl ymgynghorol wrth iddi ddatblygu polisiâu ym maes cyfieithu sy'n berthnasol i weithgarwch y Bwrdd a'r byd cyfieithu yng Nghymru a chynnig cyngor ynghylch y datblygiadau diweddaraf ym maes cyfieithu, gan gynnwys technoleg gwybodaeth. Enghraifft o hynny fyddai'r cyfraniad a fyddai ganddi i'w wneud ym maes datblygu cof cyfieithu cenedlaethol, cyfieithu yn y gymuned a chyfieithu ar gyfer y sector preifat.

3.3.4 Cynrychioli'r Proffesiwn wrth ddatblygu cymhwyster proffesiynol

I hybu rheoleiddio bydd angen creu llwybrau i alluogi cyfieithwyr i gyrraedd y safonau proffesiynol disgwylidig. Y mae'r *Adroddiad ar Reoleiddio* yn cydnabod hynny ac yn rhoi rôl allweddol i CCC yn y gwaith o ddatblygu'r cymhwyster hwnnw:

'CCC ddylai lywio'r holl broses i ddatblygu'r cymhwyster hwn' (ib. gweler uchod)

Bydd CCC a'r Bwrdd yn mynd ati i gynnal trafodaethau gyda'r sector cyhoeddus a'r sector preifat ar ffyrdd o ddatblygu hyfforddiant a fydd yn arwain at gynnig cymwysterau cenedlaethol cydnabyddedig a chyrsgoed datblygiad proffesiynol ar batrwm yr hyn a awgrymwyd yn yr *Adroddiad ar Sefydlu Asiantaeth Hyfforddi, Datblygu a Chefnogi Cyfieithwyr: Astudiaeth Dichonoldeb*.

Bydd CCC yn agor trafodaethau gyda chyrrff cyllido gyda golwg ar sefydlu asiantaeth annibynnol ar gyfer y diwydiant a fyddai'n gyfrifol am hyfforddiant a datblygiadau yn y maes.

CRYNODEB

Amcan 3

Datblygu Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru Cyf. yn gorff achredu a meincnodi safonau cyfieithu Cymraeg/Saesneg drwy:

1. Ddatblygu ymhellach swyddogaeth CCC fel corff achredu a meincnodi safonau cyfieithu
2. Cynyddu aelodaeth CCC ac adolygu ei systemau asesu ac arholi
3. Datblygu swyddogaeth ymgynghorol CCC
4. Cynrychioli'r proffesiwn wrth ddatblygu cymwysterau proffesiynol

Yn benodol:

- Bydd CCC yn llunio fframwaith ar gyfer cyflwyno cymwysterau proffesiynol yn y maes cyfieithu.
- Bydd CCC yn parhau i adolygu ei systemau arholi ac asesu yn unol ag argymhelliad yr adroddiad ar reoleiddio.
- Bydd CCC yn parhau i drafod aelodaeth gorfforaethol a bydd yn ymestyn y drafodaeth i gynnwys trafodaeth ar gyflwyno systemau rheoli ansawdd a llwybr datblygiad proffesiynol parhaus i gyfieithwyr.
- Bydd CCC a'r Bwrdd yn mynd ati i gynnal trafodaethau gyda'r sector cyhoeddus a'r sector preifat ar ffyrdd o ddatblygu hyfforddiant a fydd yn arwain at gynnig cymwysterau cenedlaethol cydnabyddedig a chysiau datblygiad proffesiynol.
- Bydd CCC yn agor trafodaethau gyda chyrrff cyllido gyda golwg ar sefydlu asiantaeth annibynnol ar gyfer y diwydiant a fyddai'n cynnig hyfforddiant a chysiau datblygiad proffesiynol yn y maes.

AMCAN 4 Diffinio'r strategaeth o fewn cenhadaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac *Iaith Pawb* a chyd-destun ehangach y Gymraeg

Bu cyfieithu yn gyfrwng allweddol i gynyddu ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg. Cyflymdd y broses hon yn aruthrol yn ystod y cyfnod ers Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac yna'n ddiweddarach yn dilyn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

3.4.1 Y Gymraeg yn y Sector Cyhoeddus

Un o gonglfeini gweithredu gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ystod deng mlynedd gyntaf Bwrdd yr Iaith Gymraeg fu'r angen i gyrff cyhoeddus lunio cynlluniau iaith.

'Sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Gwnaeth y Ddeddf hefyd ddarpariaeth ar gyfer paratoi a chymeradwyo cynlluniau iaith Gymraeg'. (*Cynlluniau Iaith Gymraeg: Eu paratoi a'u cymeradwyo yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996, t. 4)

Heb y proffesiwn cyfieithu ni fyddai modd i sefydliadau cyhoeddus fod wedi gwireddu'r cynlluniau y cytunwyd rhyngddynt a'r Bwrdd. Bellach, mae dros 300 o gynlluniau wedi eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn sgil hynny mae sawl sector wedi sefydlu rhwydweithiau ar gyfer cefnogi gweithrediad y cynlluniau hynny. Dylid ystyried cyfraniad CCC i'r rhwydweithiau hyn wrth ddatblygu'r maes cyfieithu.

Gallai CCC estyn cymorth i sefydliadau unigol hefyd wrth iddynt fynd ati i weithredu eu cynlluniau gan eu cynghori wrth iddynt gyflogi neu gomisiynu cyfieithwyr ac wedi hynny eu cynghori ar faterion safonau cyfieithu, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol cyfieithwyr.

Gan fod llawer o Gynlluniau Iaith bellach yn cael eu diwygio a'u cryfhau y mae lle i ystyried cyfraniad pellach swyddi cyfieithwyr at gyflawni mwy na sicrhau delwedd ddwyieithog yn unig drwy hwyluso gweithrediad dwyieithog y cyrff hynny. Un o amcanion y Bwrdd yw cynyddu defnyddio'r Gymraeg yn fewnol mewn sefydliadau. Cyn y gall hyn ddigwydd mewn sefydliad bydd angen trafodaeth ar y dull gorau o wneud hynny ac y mae lle i ystyried swyddogaeth yr uned gyfieithu yn hyn o beth. Awgrymwyd fwy nag unwaith y gall cyfieithwyr cyflogedig sefydliadau fod o gymorth i weithwyr eraill wrth iddynt ddrafftio yn Gymraeg trwy olygu eu gwaith. Fel y nodwyd yn adran 1.4 mae'r Bwrdd yn gweithredu prosiectau arbrol ar hyn o bryd er mwyn canfod arfer da mewn gweithleoedd dwyieithog ac mae swyddogaeth y cyfieithydd yn cael ei ystyried fel rhan o hyn.

Y mae gan wasanaethau cyfieithu'r sector cyhoeddus swyddogaeth allweddol gan y gallant osod esiampl a dylanwadu ar sefydliadau a sectorau eraill

ynglŷn â sut i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg trwy wasanaeth cyfieithu effeithiol.

3.4.2 Y Gymraeg yn y Sector Gwirfoddol ac ar lefel y gymuned

Mae cyfieithu yn y gymuned yn faes a ddatblygodd yn helaeth dros y blynyddoedd diwethaf gyda nifer o Fentrau Iaith ac eraill yn sicrhau cyllid dros dro o wahanol ffynonellau er mwyn cynnig gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu ysgrifenedig mewn cymunedau. Bu'n gyfrwng i wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy a chlywadwy mewn cymunedau yn gyffredinol.

Y mae cyfieithu ar y pryd ar y lefel hon yn amhrisiadwy i:

- Hybu dealltwriaeth rhwng aelodau o'r gymuned
- Gyfannu cymunedau drwy hwyluso'r broses o drafod materion sy'n effeithio ar les a ffyniant cyffredinol y gymuned
- Creu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith

Yma hefyd y cyflwynir y sialens fwyaf i gyfieithwyr a hyrwyddwyr iaith oherwydd

- Natur anffurfiol gweithgareddau ar y lefel hon
- Bod arferion ieithyddol cyfathrebu rhwng unigolion ac o fewn cymdeithasau wedi hen ymsefydlu.

Y mae peryglon mawr o gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd eilradd ar y lefel hon.

Mae'r anghenion a'r cyfleoedd yn amrywio'n fawr o ardal i ardal, ond eisoes trafodwyd yr angen am ddatblygu polisi ar gyfer cyfieithu yn y gymuned gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a bydd y Bwrdd yn parhau i annog polisiâu yn y maes hwn drwy barhau i drafod gyda hwy a phartneriaid eraill megis Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chymdeithas Cyngorau Gwirfoddol Sirol Cymru (WACVC). Mae angen datblygu hyfforddiant ar gyfer darpar gyfieithwyr a swyddogion y Mentrau, arweinyddion cymdeithasau a chadeiryddion cyfarfodydd. Byddai ystyried papur trafod cychwynol Iaith Cyf., *Cyfieithu Cymunedol; Papur Trafod Cychwynol* (Iaith Cyf., 2002) ar y mater yn fan cychwyn defnyddiol. Nodwyd y canlynol yn yr *Adroddiad ar Reoleiddio*:

'Ni ddylid caniatáu i gyfieithu yn y gymuned ddatblygu'n weithgarwch sy'n annibynnol ar brif ffrwd y diwydiant cyfieithu; yn hytrach, dylid anelu at ei gynnwys o fewn y broses reoleiddio.' (*Adroddiad ar Reoleiddio'r Proffesiwn Cyfieithu Cymraeg/ Saesneg*, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2003, gweler adran 'Papurau'r Bwrdd', 14 Chwefror 2003 yn www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

Swyddogaeth CCC ar lefel cyfieithu yn y gymuned fyddai sicrhau safonau cyfieithu drwy asesu, cynghori ynglŷn ag hyfforddiant a hwyluso cynlluniau mentora.

3.4.3 Y Gymraeg yn y Sector Preifat

Nod strategaeth Sector Preifat y Bwrdd yw cynyddu defnyddio'r Gymraeg yn y sector preifat gan fusnesau a chan unigolion yn weledol ac ar lafar. Mae angen ystyried cyfraniad cyfieithu at gynhyrchu deunydd dwyieithog a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wrth farchnata cynnyrch. Mae lle i'r proffesiwn ystyried y modd y gall ymateb i'r angen am gyfieithu o bob math gan y sector preifat.

Yn unol â'r Strategaeth bydd y Bwrdd, CCC a chyrrff addas eraill yn trafod sut y gellir cynnig gwasanaeth safonol sy'n ymateb i ofynion y sector preifat, a sut y gellir marchnata'r gwasanaeth hwnnw.

CRYNODEB

Amcan 4

Diffinio'r strategaeth o fewn cenhadaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac *Iaith Pawb* a chyd-destun ehangach y Gymraeg:

Gydbblethu datblygiad y proffesiwn cyfieithu i Gynllun Strategol y Bwrdd a'i bartneriaid cynyddir cyfraniad cyfieithu at normaleiddio'r Gymraeg yn:

1. Y Sector Cyhoeddus
2. Y Sector Gwirfoddol ac ar lefel y gymuned
3. Y Sector Preifat

Yn benodol:

- Bydd y Bwrdd yn rhannu canfyddiadau ei brosiectau ar weithleoedd dwyieithog gyda chyrff eraill.
- Bydd y Bwrdd yn parhau i gydweithio â Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a chyrff cyllido'r sector gwirfoddol i ddatblygu fframwaith ariannu a hyfforddi cyfieithwyr ar y lefel wirfoddol.
- Yn unol â'r Strategaeth bydd y Bwrdd, CCC a chyrff addas eraill yn trafod sut y gellir cynnig gwasanaeth safonol sy'n ymateb i ofynion y sector preifat, a sut y gellir marchnata'r gwasanaeth hwnnw.

4. CRYNODEB O'R PWYNTIAU GWEITHREDU

- Bydd y Bwrdd yn parhau i annog cyrff i roi ystyriaeth i bwysigrwydd sicrhau safonau cyfieithu, gan gynnwys cywair ac arddull, ac i swyddogaeth y cyfieithydd.
- Bydd y Bwrdd yn hyrwyddo trafodaeth ynglŷn â'r diffyg defnydd o wasanaethau cyfieithu ar y pryd yng nghyd-destun gwaith y Bwrdd a'i bartneriaid ym maes hyder ieithyddol ac ymwybyddiaeth iaith.
- Er mwyn ymchwilio ymhellach i batrwm gweithgarwch y diwydiant agor trafodaethau gydag Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau'r Cynulliad.
- Fel rhan o waith y Bwrdd yn edrych ar hyder ieithyddol a defnydd o'r iaith byddwn yn ystyried sut y bu i agweddau gweithwyr newid at yr iaith dros gyfnod lle daeth y Gymraeg yn fwyfwy gweladwy a phwyso a mesur i ba raddau y mae cyfieithiadau i'r Gymraeg o ddogfennau swyddogol yn gweithredu fel patrwm i godi hyder yn y gweithlu i fentro drafftio yn y Gymraeg eu hunain.
- Fel rhan o swyddogaeth y Fforwm Cyfieithu byddwn yn ystyried cyfraniad cyfieithu at atgyfnerthu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg o'r sector cynradd i'r sector uwchradd.
- Bydd CCC yn datblygu fframwaith ar gyfer cyrsiau cyfieithu proffesiynol wedi'u hachredu ac yn trafod dulliau posibl o gydweithio i ddatblygu rhai o'r cymwysterau hyn gyda'r cyrff perthnasol.
- Bydd y Fforwm Cyfieithu yn trafod gyda'r cyrff perthnasol ddulliau posibl o gydweithio i ddatblygu rhai o'r cymwysterau hyn.
- Fel rhan o'r fframwaith ar gyfer datblygu cyrsiau cyfieithu proffesiynol, bydd CCC yn ystyried dulliau o fwrw ymlaen i sefydlu asiantaeth i hyfforddi a chefnogi cyfieithwyr.
- Bydd y Bwrdd yn mynd ati i ddiffinio a sefydlu swyddogaeth iddo'i hun, ac yna i Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel y corff cenedlaethol i gydlynu safoni termau ac enwau lleoedd.
- Bydd y Bwrdd yn parhau i gydweithio â CILT Cymru i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn datblygiadau perthnasol ym maes ieithoedd tramor modern.
- Bydd CCC yn parhau i drafod gyda'r ITI, NRPSI a'r ATC wrth i'r BSI fwrw ymlaen i weithredu'r drefn a argymhellir dan y safon CEN.
- Bydd CCC yn llunio fframwaith ar gyfer cyflwyno cymwysterau proffesiynol yn y maes cyfieithu.

- Bydd CCC yn parhau i adolygu ei systemau arholi ac asesu yn unol ag argymhelliad yr adroddiad ar reoleiddio.
- Bydd CCC yn parhau i drafod aelodaeth gorfforaethol a bydd yn ymestyn y drafodaeth i gynnwys trafodaeth ar gyflwyno systemau rheoli ansawdd a llwybr datblygiad proffesiynol parhaus i gyfieithwyr.
- Bydd CCC a'r Bwrdd yn mynd ati i gynnal trafodaethau gyda'r sector cyhoeddus a'r sector preifat ar ffyrdd o ddatblygu hyfforddiant a fydd yn arwain at gynnig cymwysterau cenedlaethol cydnabyddedig a chysiau datblygiad proffesiynol.
- Bydd yn agor trafodaethau gyda chyrff cyllido gyda golwg ar sefydlu asiantaeth annibynnol ar gyfer y diwydiant a fyddai'n cynnig hyfforddiant a chysiau datblygiad proffesiynol yn y maes.
- Bydd y Bwrdd yn rhannu canfyddiadau ei brosiectau ar weithleoedd dwyieithog gyda chyrff eraill.
- Bydd y Bwrdd yn parhau i gydweithio â Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a chyrff cyllido'r sector gwirfoddol i ddatblygu fframwaith ariannu a hyfforddi cyfieithwyr ar y lefel wirfoddol.
- Yn unol â'r Strategaeth bydd y Bwrdd, CCC a chyrff addas eraill yn trafod sut y gellir cynnig gwasanaeth safonol sy'n ymateb i ofynion y sector preifat, a sut y gellir marchnata'r gwasanaeth hwnnw.

5. LLYFRYDDIAETH

Adroddiad ar Reoleiddio'r Proffesiwn Cyfieithu Cymraeg/ Saesneg, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2003.

Adroddiad y Panel Cymraeg Swyddogol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1995.

Arolwg o'r Diwydiant Cyfieithu yng Nghymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2005.

Astudiaeth o botensial economaidd busnesau iaith-gysylltiol, Menter a Busnes, 2001.

Cyfieithu Cymunedol; Papur Trafod Cychwynnol, Iaith Cyf., 2002.

Cynlluniau Iaith Gymraeg: Eu paratoi a'u cymeradwyo yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996.

Davies, Siwan, *Arolwg o'r Diwydiant Cyfieithu yng Nghymru*, Prifysgol Cymru Aberystwyth, 2003.

Dyfodol y Gymraeg - Cynllun Strategol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2005.

Iaith Pawb, Cynllun Gweithredol ar gyfer Cymru Ddwylieithog, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003.

Ieithoedd sy'n cyfrif, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002.

Kaufmann, Judith, *The Importance of Translation for the Strengthening of Bilingualism in Wales*, Prifysgol Leipzig, 2001.

Rhagolygon yr Iaith, Darlith Rhodri Williams, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2002.

Sefydlu Asiantaeth Hyfforddi, Datblygu a Chefnogi Cyfieithwyr; Astudiaeth Dichonoldeb, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a Iaith Cyf, 2004.

Strategaeth Sector Preifat, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2006.

Technoleg Gwybodaeth a'r Iaith Gymraeg. Dogfen Strategaeth, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2006.